OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 1202 (Cy. 247) (C. 93)

# GWASANAETHAU IECHYD, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *am 12.48 p.m. ar 18 Tachwedd 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 186(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022(**1**).

**Enwi**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Iechyd a Gofal 2022 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2022.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 22 Tachwedd 2022**

**2.** Daw adran 161(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 i rym ar 22 Tachwedd 2022.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Am 12.48 p.m. ar 18 Tachwedd 2022

(**1**) 2022 p. 31.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Y Rheoliadau hyn yw'r rheoliadau cychwyn cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 ("y Ddeddf"). Maent yn dwyn i rym adran 161(2) o'r Ddeddf o ran Cymru ar 22 Tachwedd 2022.

Mae adran 161(2) yn diwygio adran 88 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae adran 88 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â phennu tâl ar gyfer personau sy'n darparu gwasanaethau fferyllol. Mae adran 161(2) o'r Ddeddf yn diwygio'r pwerau sy'n galluogi i reoliadau gael eu gwneud i sefydlu trefniadau talu gwahanol ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol arbennig i gynnwys cynhyrchion ar gyfer brechu ac imiwneiddio, meddyginiaethau neu gyffuriau a ddefnyddir ar gyfer atal neu drin clefydau pandemig neu glefydau pandemig posibl, a chynhyrchion cysylltiedig.